

# YMGYRCH AFLONYDDU RHYWIOL YN Y GWEITHLE GAN Y TUC

## LLAWLYFR YR YMGYRCH

TUC Cymru

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Trosolwg | 3 |
| Amcanion a chynulleidfaoedd allweddol | 5 |
| Mewnwelediad a rhwystrau | 6 |
| Tôn llais | 7 |
| Asedau creadigol | 8 |
| Sut allwch chi helpu? | 9 |

# Trosolwg

**Mae mynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol ym mhob gweithle yn flaenoriaeth i TUC Cymru.**

Ar ôl blynyddoedd lawer o ymgyrchu gan y mudiad undebau llafur a chymdeithas sifil, daeth y Ddeddf Diogelu Gweithwyr i rym ar 26 Hydref 2024. Mae hyn yn golygu y bydd angen i gyflogwyr weithredu mewn modd rhagweithiol ac ataliol er mwyn amddiffyn eu gweithwyr rhag aflonyddu rhywiol yn y gweithle.

Mae'r ddyletswydd yma'n gam pwysig wrth fynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol. Rydym yn lansio ymgyrch i godi ymwybyddiaeth ac addysgu gweithwyr (dynion a menywod) am aflonyddu yn y gweithle, hawliau gweithwyr a dulliau riportio.

**MAE HANNER MENYWOD WEDI PROFI AFLONYDDU RHYWIOL.**

**7 O BOB 10 AR GYFER MENYWOD ANABL A GWEITHWYR LHDTC+.**

“Ry’n ni’n byw mewn cymdeithas lle mae’r person sydd wedi profi’r peth ofnadwy yma yn poeni mwy am ei riportio nag y mae’r busnes sydd fod i’w hamddiffyn, na’r person sydd wedi cyflawni’r aflonyddu.

**Pa mor o chwith yw hynny?”**

Cyfranogwr grŵp ffocws dealltwriaeth o’r ymgyrch

# Amcanion

**Ein nod cyffredinol yw sicrhau nad oes neb yn profi aflonyddu rhywiol yn y gweithle.**

Nid oes digon o bobl yn riportio aflonyddu yn y gweithle oherwydd ofn na fyddant yn cael eu credu neu bod eu profiadau'n cael eu bychanu. Bwriad yr ymgyrch yma yw:

- Sefydlu ac atgyfnerthu TUC Cymru a'r undebau sy'n aelodau fel llais sy'n arwain y gad wrth alw am newid.
- Codi ymwybyddiaeth ac addysgu gweithwyr (dynion a menywod) ynghylch aflonyddu yn y gweithle, hawliau gweithwyr a dulliau riportio.
- Codi ymwybyddiaeth o'r 'Ddeddf Diogelu Gweithwyr' fel bod cyflogwyr yn creu lle diogel i'w gweithwyr.
- Hyrwyddo cyrsiau TUC Cymru ar atal aflonyddu rhywiol.

## CYNULLEIDFAOEDD ALLWEDDOL:

- GWEITHWYR (DYNION A MENYWOD)
- CYNRYCHIOLWYR UNDEBAU LLAFUR
- SEFYDLIADAU LEDLED CYMRU

# Rhwystrau i gyfathrebu

**Amlygodd ein mewnwelediad rwystrau cyffredin a sut y bydd ein hymgyrch yn ceisio mynd i'r afael â nhw.**

| RHWYSTR | SUT Y BYDD YR YMGYRCH YN MYND I'R AFAEL Â HYN |
|---|---|
| **Diffyg gwybodaeth ymhlith cyflogwyr ynghylch sut i ddelio ag aflonyddu rhywiol yn y gweithle.** | Darparu hyfforddiant ac addysg i rymuso cyflogwyr a sicrhau gweithwyr y caiff eu pryderon eu delio â nhw. |
| **Dealltwriaeth lefel isel o'r effaith ddifrifol y gall aflonyddu rhywiol yn y gweithle ei chael ar y rhai sy'n ei brofi, neu sut y gall waethygu.** | Cynnwys addysgol a defnydd o astudiaethau achos i ddangos yr effaith y gall ei chael ar y rhai sydd wedi'i brofi. |
| **Gwybodaeth ymarferol gyfyngedig ynghylch sut i ymyrryd, riportio neu ddelio â digwyddiad.** | Gwybodaeth addysgol syml ar riportio a beth i'w wneud os ydyn nhw'n ei brofi. |
| **Dealltwriaeth lefel isel o ddyletswydd gofal cyflogwyr a diffyg gwybodaeth am arfer gorau ynghylch riportio.** | Gwybodaeth addysgol syml ar riportio a gwybodaeth sy'n canolbwyntio ar gamau gweithredu. |
| **Yn amharod i riportio oherwydd ofn na fydd unrhyw un yn eich credu, ei fod yn ymddangos yn ddibwys, neu na chaiff camau eu cymryd.** | Negeseuon i ennyn hyder mewn prosesau riportio ac amlygu cefnogaeth. |
| **Diffyg gwybodaeth am sut y gall undeb llafur helpu.** | Amlygu manteision o fod yn rhan o undeb llafur. Defnyddio astudiaethau achos a gwybodaeth i arddangos y gefnogaeth y gall undeb llafur ei darparu. |

Mae ymchwil yn dangos bod pobl yn gwybod ac yn deall beth yw aflonyddu rhywiol yn y gweithle. Felly, ni fydd yr ymgyrch yn manylu ar yr hyn sydd wedi neu heb ei gynnwys o fewn aflonyddu rhywiol. Yn hytrach, bydd yr ymgyrch yn tanlinellu os yw rhywbeth yn teimlo'n anghywir, y dylech ddilyn eich greddf a'i riportio.

# Tôn llais

- Eglur ac ystyriol
- Uniongyrchol a heb jargon
- Cefnogol
- Ffeithiol ac addysgiadol
- Ennyn hyder


# Asedau

**Crëwyd yr asedau canlynol i'ch helpu chi i gefnogi'r ymgyrch hon:**

- Posteri
- Taflen A5
- Graffeg llofnod e-bost

**ARCHEBWCH EICH PECYN O BOSTERI**

**LAWRLWYTHWCH DDEUNYDDIAU AR-LEIN**










**Bydd deunyddiau ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg**

# Sut allwch chi helpu?

**Ar gyfer undebau**

- Rhannwch a chodwch ymwybyddiaeth o’r ymgyrch ar draws eich sianeli e.e. gwefan, cyfryngau cymdeithasol a chylchlythyrau.
- Rhannwch bostiadau cyfryngau cymdeithasol, graffeg a fideos.
- Os yn bosibl, crëwch dudalen we bwrpasol ar gyfer yr ymgyrch.
- Cyfeiriwch gynrychiolwyr at hyfforddiant atal aflonyddu rhywiol TUC Cymru.

**Ar gyfer cynrychiolwyr a changhennau**

- Rhannwch a chodwch ymwybyddiaeth o’r ymgyrch ar draws eich sianeli e.e. gwefan, cyfryngau cymdeithasol a chylchlythyrau.
- Ail-rannwch bostiadau cyfryngau cymdeithasol, graffeg a fideos o sianeli cyfryngau cymdeithasol TUC Cymru.
- Arddangoswch bosteri a thaflenni.
- Cofrestrwch ar gyfer hyfforddiant.

**Cyflogwyr**

- Rhannwch a chodwch ymwybyddiaeth o’r ymgyrch ar draws eich sianeli e.e. mewnrwyd, cyfryngau cymdeithasol a chylchlythyrau.
- Ail-rannwch bostiadau cyfryngau cymdeithasol, graffeg a fideos o sianeli cyfryngau cymdeithasol TUC Cymru.
- Arddangoswch bosteri a thaflenni.
- Cofrestrwch ar gyfer hyfforddiant.


DIOLCH!
TUC Cymru